Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

# Cynllun Gweithredu: Carchar Ei Fawrhydi y Parc

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar: 12 Mai 2025

Ymateb i Archwiliad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP): 13 – 23 Ionawr 2025

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar: 23 Ebrill 2025

**CYFLWYNIAD**

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy’n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r ffordd y cânt eu trin. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mewn ymateb i’r adroddiad, rhaid i HMPPS a’r MoJ lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â’r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol. Mae cynlluniau gweithredu’n darparu camau a chamau gweithredu penodol i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau a’r pryderon allweddol, sy’n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol, gan nodi perchennog ac amserlen pob cam yn glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a’u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd y cynnydd mewn perthynas â'r gwaith o gyflwyno a chyflawni’r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro ac yn cael ei adrodd.

CYNLLUN GWEITHREDU:  ADRODDIAD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI FAWRHYDI

SEFYDLIAD: Carchar EF y Parc

| 1. Rhif Argymhelliad | 2. Pryderon | 3. Ymateb<br>Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon â blaenoriaeth** | | | |
| 1 | Roedd nifer y digwyddiadau treisgar yn uchel. Roedd dealltwriaeth yr arweinwyr o'r achosion yn gyfyngedig ac nid oedd eu hymateb wedi cael effaith eto. | Bydd Carchar EF y Parc yn ceisio lleihau lefelau trais ac yn cymell ymddygiad cadarnhaol drwy wneud y canlynol:<br><br>● Bydd y Pennaeth Diogelwch yn adolygu ac yn ail-lansio'r polisi Lleihau Trais; ar ei newydd wedd bydd yn cael ei yrru gan ddata er mwyn gallu adnabod a rhoi sylw i'r ffactorau sy'n achosi ac yn sbarduno trais, gan sicrhau ei fod yn rhoi sylw i bob agwedd ar reoli ymddygiad a bod yr ymatebion i drais yn atebion cydlynol ac effeithiol. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ffyrdd o herio a gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n ymddwyn yn dreisgar dro ar ôl tro<br>● Bydd y Pennaeth Diogelwch yn adolygu'r ffordd y caiff achosion eu rheoli dan Gynlluniau Herio, Ymyrryd a Chefnogi (CSIP), er mwyn cefnogi ac addysgu Rheolwyr Achosion i gwblhau cynlluniau. I ategu hyn bydd archwiliadau sicrwydd yn cael eu cynnal, gyda'r adborth yn cael ei roi i'r Rheolwyr Achosion a chaiff yr arferion da a welir eu trafod yn y Cyfarfod Ymyriadau Diogelwch (SIM) wythnosol.<br>● Bydd y Pennaeth Preswyl yn adolygu ac yn cyhoeddi cynllun y Polisi Cymhellion. Byddwn yn canolbwyntio ar ei weithredu ac ar wella'r arlwy sydd ar gael i feithrin ymddygiad da, annog carcharorion i wneud penderfyniadau'n rhesymegol a rhoi cymhelliad i'r rhai sy'n ymrwymo i weithgareddau cynnydd yn ystod eu dedfryd.<br>● Gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r broses ddyfarnu, gan gynnwys sicrhau ansawdd gwrandawiadau, ôl-groniadau, dadansoddi data, atgyfeiriadau i'r heddlu a | Cyfarwyddwr | Medi 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Awst 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | drwy adolygu cworwm y mynychwyr yn y Grŵp Monitro ac Adolygu Trefniadau Gwahanu (SMARG) misol, lle bydd camau gweithredu priodol ac iddynt amserlenni penodol yn cael eu cyflwyno er mwyn sicrhau gwelliant. Hefyd, bydd dangosfwrdd perfformiad newydd yn cael ei gyflwyno i fonitro dyfarniadau a gwella prydlondeb dyfarniadau.<br>● Adolygu'r cyfarfod teirochrog misol rhwng y tîm Diogelwch, y tîm Diogeledd a'r tîm Strategaeth Cyffuriau, er mwyn sefydlu trefniadau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth a rhoi sylw i'r hyn sy'n achosi trais.<br>● Sicrhau bod y tîm diogelwch yn cydgasglu ac yn adolygu'r holl ddata sy'n ymwneud â thrais, gan gynnwys gwybodaeth o ymchwiliadau CSIP, grwpiau ffocws ar gyfer carcharorion ac adroddiadau Rheoli Cofnodion a Systemau Gwybodaeth Carchardai (PRISM), er mwyn gallu cael gwell dealltwriaeth o achosion trais a'r ffactorau sy'n ei sbarduno a thrafod hynny yn y Cyfarfod Diogelwch amlddisgyblaethol misol, lle bydd camau priodol i leihau trais yn cael eu cyflwyno a'u hychwanegu at y cynllun gweithredu cyfunol ar ddiogelwch. Bydd amserlenni, effeithiolrwydd ac effaith yr holl gamau gweithredu yn cael eu monitro yn y cyfarfod.<br>● Bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr yn monitro presenoldeb ym mhob cyfarfod allweddol i sicrhau bod yr holl swyddogaethau/penaethiaid allweddol yn mynychu'n briodol, er mwyn gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a thrafod ac er mwyn gallu cynnig a chytuno ar gamau gweithredu priodol sy'n seiliedig ar ddata. | | Mehefin 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Mai 2025 |
| 2 | **Roedd cyffuriau anghyfreithlon ar gael ac yn cael eu defnyddio'n eang.** Roedd bron i draean canlyniadau pob hap-brawf cyffuriau yn gadarnhaol ac, yn ein harolwg, dywedodd dros hanner y carcharorion ei | Bydd CEF y Parc a Dyfodol (y darparwr triniaethau camddefnyddio sylweddau) yn ymdrechu i sicrhau bod llai o gyffuriau ar gael ac i roi cefnogaeth i'r rhai sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon drwy wneud y canlynol:<br><br>● Sicrhau bod CEF y Parc a Dyfodol yn gweithio ar y cyd i greu Llwybr Lleihau Galw sy'n cyflwyno dull carchar cyfan o leihau'r galw am sylweddau anghyfreithlon.<br>● Sefydlu uned byw heb sylweddau drwy gynnig cymhellion er mwyn creu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n annog, yn ysgogi ac yn cymell y carcharorion hynny sy'n dymuno bod yn llai dibynnol ar gyffuriau anghyfreithlon ac sy'n ymatal rhag cyflawni gweithredoedd o drais a/neu hunan-niweidio sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. | G4S/ Cyfarwyddwr Darparwr Iechyd | Awst 2025<br><br>Awst 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bod yn hawdd cael cyffuriau yn y carchar. | ● Bydd G4S yn creu achos busnes a rhaglen fuddsoddi ar gyfer gosod ffenestri newydd yng nghelloedd CEF y Parc, i leihau'r risg y bydd dronau'n cael eu defnyddio i gludo cyffuriau.<br>● Adolygu'r Strategaeth Chwilio i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r darlun gwybodaeth yn gywir, gan ganiatáu i'r trefniadau chwilio gael eu targedu'n well fel nad oes cymaint o sylweddau anghyfreithlon ar gael.<br>● Monitro'r wybodaeth am ddiogelwch yn barhaus i adnabod bygythiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy'r Asesiad Tactegol Lleol (LTA) misol a'r Bwrdd Tactegol Lleol (LTB), er mwyn gallu adnabod blaenoriaethau a bygythiadau allweddol, a defnyddio adnoddau yn unol â hynny.<br>● Bydd Diogelwch y giatiau a gwybodaeth ategol yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y trefniadau chwilio yn gadarn.<br>● Gweithredu dyfarniadau adsefydlu ar gyfer cyhuddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau er mwyn cefnogi carcharorion sy'n defnyddio sylweddau anghyfreithlon, gan eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau Dyfodol drwy gyflwyno dyfarniad llai.<br>● Gwella'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth allweddol ar y cyd rhwng Dyfodol a'r Darparwr Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg), gan sicrhau bod y broses o rannu cefnogaeth Seicogymdeithasol yn cael ei chofnodi yn y prif gofnodion gofal iechyd.<br>● Bydd Arweinydd y Strategaeth Cyffuriau (DSL) yn sicrhau presenoldeb a goruchwyliaeth strategol yng nghyfarfod misol y strategaeth cyffuriau, lle trafodir data a thueddiadau sy'n esgor ar gamau gweithredu i gefnogi effeithiolrwydd y Strategaeth Cyffuriau. Bydd y DSL yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod dull aml-asiantaeth yn cael ei ddefnyddio y tu mewn a'r tu allan i waliau'r carchar fel nad yw sylweddau anghyfreithlon ar gael mor hawdd. | | Mai 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Awst 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Mai 2025 |
| 3 | **Roedd lefelau'r hunan-niweidio a gofnodwyd yn dal yn uchel, ac nid oedd digon yn cael ei** | Bydd Carchar EF y Parc yn ceisio lleihau'r lefelau hunan-niweidio drwy wneud y canlynol:<br><br>● Adolygu'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i garcharorion, yn yr uned garchar fwy diogel ac ar draws y sefydliad ehangach, gan sicrhau bod anghenion y rheini sydd | Cyfarwyddwr | <br><br>Mehefin 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **wneud i fynd i'r afael â'r achosion.** | mewn argyfwng difrifol yn cael eu diwallu a bod cymorth priodol yn cael ei gynnig i leihau niwed ymysg y rheini sy'n hunan-niweidio'n gyson.<br>● Bydd y Tîm Diogelwch yn cefnogi rheolwyr achos i wella'r cynlluniau gofal Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCTs) a'r ffordd y caiff achosion eu rheoli drwy wneud y canlynol: sicrhau bod adolygiadau'n amlddisgyblaethol, darparu hyfforddiant a mentora fel bod prosesau'n cael eu dilyn yn llym, gan gynnwys dewis a defnyddio ymyriadau unigol mewn cynlluniau gofal i roi sylw i'r risgiau a welwyd.<br>● Adolygu proses Sicrhau Ansawdd ACCT i sicrhau bod pob problem yn cael ei hadnabod, bod y partïon cyfrifol yn cael eu herio, a bod yr ansawdd yn cael ei wella ym mhob agwedd ar reoli achosion ACCT.<br>● Sicrhau bod staff gweithredol yn cael hyfforddiant gloywi mewn Hunanladdiad a Hunan-Niweidio. Bydd pob aelod staff newydd yn cael ei hyfforddi fel rhan o'r cwrs hyfforddi cychwynnol.<br>● Gwella cysondeb yn y ffordd y caiff y drefn ei chynnal drwy adolygu proffiliau staff a'r diwrnod craidd, gan roi mwy o fynediad i weithgareddau pwrpasol a chyfleoedd i gael cysylltiadau cymdeithasol er mwyn lleddfu'r rhwystredigaeth a'r diflastod cyffredinol a nodwyd. Bydd rheolwyr achos a staff preswyl yn annog pob carcharor a gefnogir drwy'r broses ACCT i gymryd rhan yn y drefn.<br>● Parhau i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd, gyda'r dysgu'n cael ei atgyfnerthu ymysg staff bob chwe mis i sicrhau bod y camau gweithredu'n cael eu sefydlu.<br>● Bydd y Pennaeth Diogelwch yn sicrhau y cynhelir ymchwiliad i bob achos o hunan-niweidio difrifol fel mater o drefn er mwyn dysgu ymhellach.<br>● Bydd y tîm Diogelwch yn adolygu i ba raddau y defnyddir cronfa ddata ACCT i sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan wella'r broses o ddadansoddi tueddiadau, patrymau ac achosion hunan-niweidio. Bydd y tîm diogelwch yn rhannu eu dealltwriaeth o achosion hunan-niweidio yn y cyfarfodydd diogelwch ac yng nghyfarfod misol yr Uwch Dîm Arwain, lle bydd camau gweithredu priodol i leihau hunan-niweidio yn cael eu hychwanegu at y cynllun gweithredu cyfunol ar ddiogelwch. | | Mehefin 2025<br>Gorffennaf 2025<br>Parhaus<br>Hydref 2025<br>Wedi'i gwblhau<br>Mai 2025<br>Mai 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Roedd camau gweithredu gan arweinwyr i ddatrys a lliniaru risgiau a nodwyd i ganlyniadau iechyd wedi bod yn rhy araf.** Roedd prinder mannau clinigol addas, yn enwedig ar gyfer deintyddiaeth, ac nid oedd digon o staff yn y carchar i hebrwng carcharorion i'r ysbyty. | Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gwella'r canlyniadau drwy wneud y canlynol:<br><br>● Bydd Rheolwr Cyfadran Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a'r gwasanaethau clinigol yn adolygu cyfleoedd i gynyddu lefel y gwasanaethau ymweld sydd ar gael yng Ngharchar y Parc, gyda'r nod o leihau'r gofyn am hebryngwyr ysbyty.<br>● Gweithio gyda CEF y Parc i greu cynllun gweithredu yn dilyn y Dadansoddiad o Anghenion Iechyd diweddar, gan gynnwys adolygiad o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl (Gweler pryder 5).<br>● Pwyso a mesur cyfleoedd i ddefnyddio Wi-Fi ar draws ardaloedd preswyl y carchardai i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddarparu gofal iechyd yn adrannau'r carchar.<br>● Gwella a chysoni'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r prosesau llywodraethu drwy gyflwyno un gofrestr risgiau gynhwysfawr a fydd yn cynnwys risgiau gwasanaethau deintyddol a'r diffyg gofod clinigol.<br>● Cytuno ar y model staffio gofynnol yn seiliedig ar y dadansoddiad o anghenion iechyd a gwblhawyd yn ddiweddar. Ar ôl cytuno ar y model, bydd ymgyrchoedd recriwtio'n cael eu cynnal i lenwi'r holl swyddi gwag sy'n ymwneud ag iechyd.<br>● Sefydlu archwiliadau rheoli i wella glendid yr holl ardaloedd gofal iechyd, gan gynnwys arddangos a chyhoeddi gwybodaeth hybu iechyd ym mhob ardal aros.<br>● Adolygu'r system gwybodaeth glinigol i sicrhau bod pob claf sydd â chyflyrau hirdymor sydd angen cynllun gofal yn cael un, a bod modd adolygu'r gofal mewn trefn gronolegol. Mae gan bob claf sy'n cael diagnosis o ganser nyrs benodol a bod ganddynt gynllun gofal cynhwysfawr.<br>● Sicrhau bod pob prawf sgrinio eilaidd adeg derbyn carcharorion yn cael ei gynnal gan nyrs gymwysedig.<br><br>Bydd CEF y Parc yn sicrhau ei fod yn hwyluso'r trefniadau ar gyfer hebrwng i'r ysbyty ac yn darparu digon o ofod clinigol drwy wneud y canlynol: | Darparwr Iechyd<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr | <br><br><br>Hydref 2025<br><br><br><br>Hydref 2025<br><br><br>Mehefin 2025<br><br><br>Mehefin 2025<br><br><br>Mehefin 2025<br><br><br>Awst 2025<br><br>Awst 2025<br><br><br><br>Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygu'r Cynllun Rheoli'r Drefn i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyson i fodloni'r gofynion hebrwng wedi'u proffilio y cytunwyd arnynt.<br>• Bydd CEF y Parc, gyda chymorth gan y Darparwr Iechyd, yn cynnal ymarferiad cwmpasu i ddewis gofod swyddfa / clinigol ychwanegol y tu allan i'r uned gofal iechyd bresennol er mwyn gwella'r ddarpariaeth, a hefyd yn cynnal adolygiad o'r gwasanaethau iechyd.<br>• Bydd y capasiti a'r galw am wasanaethau gofal iechyd yn CEF y Parc yn dal i gael eu hadolygu'n barhaus drwy strwythur cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Iechyd y mae'r Cyfarwyddwr/Dirprwy a rheolydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn eu mynychu. | | June2025<br><br>Tachwedd 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |
| 5 | **Roedd gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn brin o adnoddau ac nid oeddent yn diwallu anghenion y boblogaeth.** | Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Dyfodol yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau drwy wneud y canlynol:<br><br>● Cynnal adolygiad o'r gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau presennol fel rhan o adolygiad Cymru gyfan Coleg Brenhinol y Seiciatryddion (RCPsych), er mwyn deall pa adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth.<br>● Ar ôl i adroddiad yr RCPsych ddod i law, byddant yn creu achos busnes i ganfod cyfleoedd i gynyddu nifer y staff a'r hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.<br>● Adolygu'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau seico-gymdeithasol presennol, gan gynnwys adolygu'r gofynion o ran capasiti i'r dyfodol.<br>● Sicrhau bod mwy o sesiynau seiciatreg ar gael i gleifion sydd angen gwasanaethau iechyd meddwl cymhleth arbenigol.<br>● Comisiynu adolygiad a'i ddefnyddio i arwain y broses o greu model gofal cynaliadwy ar gyfer gofal sy'n ystyriol o gyflyrau seicolegol yn CEF y Parc, gan gynnwys darparu therapïau seicolegol o dan ran 1 a rhan 2 o Mental Health Matters Wales; gofal sy'n ystyriol o drawma ac ymgynghoriaeth a goruchwyliaeth yn y carchar.<br>● Bydd y capasiti a'r galw am wasanaethau gofal iechyd yn CEF y Parc yn dal i gael eu hadolygu'n barhaus drwy strwythur cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Partneriaeth | Darparwr Iechyd | <br><br>Mai 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Mai 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Iechyd y mae'r Cyfarwyddwr/Dirprwy a rheolydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yn eu mynychu. | | |
| 6 | **Nid oedd digon o garcharorion yn mynychu sesiynau addysg, sgiliau neu waith, yn rhannol oherwydd gwendidau o ran dyraniadau ac anghysondebau yn y weithdrefn, ac nid oedd data ar bresenoldeb yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar draws y carchar i ganfod tueddiadau ac i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael.** | Bydd CEF y Parc a Novus Gower (y Darparwr Addysg) yn gwella'r broses o ddyrannu carcharorion ac yn gwella'u presenoldeb mewn sesiynau Addysg, Sgiliau a Gwaith drwy wneud y canlynol: | Cyfarwyddwr/ Darparwr addysg | |
| | | ● Sicrhau bod yr holl lwybrau y gellir dewis ohonynt yn cael eu rhannu â'r tîm dyraniadau cyn i garcharor gael ei ddyrannu, i sicrhau ei fod yn cael gweithgaredd sy'n cyd-fynd â'i ddyheadau. | | Awst 2025 |
| | | ● Bydd y Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith yn gweithredu proses sicrhau ansawdd fisol ar gyfer yr holl ddyraniadau, gan gynnwys eu hamseroldeb, gan sicrhau bod carcharorion yn cael eu dyrannu i ofodau gwaith ac addysg sy'n cyd-fynd â'u Cynlluniau Dysgu. | | Medi 2025 |
| | | ● Adolygu'r broses ddyrannu ac amserlennu fel nad oes rhaid i garcharorion ddewis un gweithgaredd ar draul un arall. Bydd yr adolygiad yn cyplysu â'r adolygiad o'r Polisi Cymhellion (Gweler pryder 1) i gymell presenoldeb. | | Medi 2025 |
| | | ● Sicrhau'n rheolaidd fod o leiaf 80% o'r boblogaeth gymwys yn cael ei dyrannu i weithgaredd. | | Medi 2025 |
| | | ● Sicrhau bod y drefn yn cael ei chynnal yn fwy cyson drwy gynnal adolygiad o'r proffiliau staff a'r diwrnod craidd, gan roi mwy o fynediad at weithgareddau pwrpasol (Gweler pryder 3). | | Hydref 2025 |
| | | ● Gweithredu dangosfwrdd cyflogaeth a sgiliau sylfaenol er mwyn gwella'r drefn o ddadansoddi data ar Addysg, Sgiliau a Gwaith. Bydd y cyfarfod Addysg, Sgiliau a Gwaith wythnosol yn defnyddio'r dangosfwrdd i fonitro, herio a chanfod tueddiadau o ran diffyg presenoldeb er mwyn sicrhau gwelliannau. Bydd y dangosfwrdd yn cael ei rannu ac ar gael i'r holl randdeiliaid allweddol, er mwyn gallu gwerthuso ymarfer a gweithio yn amlddisgyblaethol. | | Mai 2025 |
| | | ● Bydd presenoldeb a rhesymau dros beidio â mynychu yn cael eu monitro a'u tracio yng nghyfarfod wythnosol ESW, cyfarfod misol y Grŵp Gwella Ansawdd a chyfarfod misol y Bwrdd Partneriaeth Addysg, lle gellir codi camau gweithredu er mwyn adnabod a rhoi sylw i'r pethau sy'n rhwystro carcharorion rhag bod yn bresennol. | | Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | **Nid oedd digon yn cael ei wneud i gefnogi carcharorion i leihau eu risg, neu i symud ymlaen yn eu dedfryd.** Nid oedd y cyswllt â'r rheolwyr troseddwyr yn digwydd yn aml, ac nid oedd y gwaith cyflwyno allweddol yn cefnogi'r gwaith o reoli troseddwyr. | Bydd CEF y Parc a Gwasanaeth Prawf Cymru yn helpu carcharorion i leihau eu risg ac i symud ymlaen yn eu dedfryd drwy wneud y canlynol:<br><br>● Gweithredu strategaeth Lleihau Aildroseddu sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r anghenion gan helpu carcharorion i leihau eu risg. Bydd cynllun gweithredu sy'n seiliedig ar ddata yn cefnogi'r strategaeth i nodi a mesur cynnydd ar draws pob llwybr adsefydlu.<br>● Recriwtio Pennaeth Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr i gydlynu ac ysgogi gwelliannau.<br>● Sicrhau bod gan y carchar gyflenwad digonol o Reolwyr Troseddwyr Carchar er mwyn ysgafnu llwythi achosion a chynyddu cysylltiadau wyneb yn wyneb.<br>● Adolygu llwyth gwaith a blaenoriaethau rheolwyr troseddwyr carchar, canfod unrhyw rwystrau a/neu gymorth sydd ei angen, er mwyn gallu cynnig digon o gyfleoedd amserol i garcharorion gwrdd wyneb yn wyneb a'u Rheolwr i drafod eu cynnydd. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei drafod yn y cyfarfod Lleihau Aildroseddu.<br>● Cynnal sesiynau goruchwylio wyneb yn wyneb yn unol â'r Safonau Cenedlaethol, yn ystod y tri mis cyntaf ar ôl cyrraedd a chyn i'r achos gael ei drosglwyddo i ofal y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol.<br>● Cwblhau cynllun dedfryd ar gyfer pob carcharor cymwys yn unol â'r Amserlenni Cenedlaethol, gan adolygu hwn pryd bynnag y ceir newid mawr mewn amgylchiadau.<br>● Bydd Rheolwyr Troseddwyr Carchar yn defnyddio eu crebwyll proffesiynol i drefnu sesiynau goruchwylio gyda charcharorion, yn dibynnu ar y risg a'r angen a welir yn ystod y cyfnod o garchar.<br>● Bydd yr Uwch Swyddog Prawf yn monitro ansawdd ac amlder y sesiynau rheoli troseddwyr fesul Rheolwr, gan benderfynu ar y blaenoriaethau i helpu i ysgogi cynlluniau dedfryd sy'n helpu i reoli risgiau a sicrhau cynnydd, gan roi i'r Rheolwr Troseddwyr Carchar gefnogaeth a hyfforddiant fel bo angen.<br>● Cyflwyno'r gyfres newydd o Raglenni Ymddygiad Troseddol achredig, gan sicrhau eu bod yn cael eu targedu'n effeithiol fel bod y gwaith lleihau risgiau yn cael | Cyfarwyddwr Gwasanaeth Prawf Cymru | Medi 2025<br><br>Wedi'i gwblhau Gorffennaf 2025<br>Mai 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Awst 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Rhagfyr 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | yr effaith orau bosibl. I ategu'r rhaglenni ymddygiad troseddol, bydd y rheolwr troseddwyr carchar yn gwneud gwaith ymddygiad troseddol un-i-un strwythuredig i helpu i fynd ati i herio agwedd, ffordd o feddwl ac ymddygiad carcharorion.<br>● Cynnal hyfforddiant gloywi i staff i sicrhau bod gweithwyr allweddol yn gallu datblygu eu sgiliau i ddeall sut mae gweithwyr allweddol yn helpu i reoli troseddwyr, a sut gellir cyflawni hyn.<br>● Sicrhau bod yr holl wybodaeth hanfodol am garcharorion ar gael ac yn cael ei rhannu ar draws pob adran fel rhan o brosesau sicrhau ansawdd, a bod pob cysylltiad rhwng Rheolwyr Troseddwyr Carchar a Gweithwyr Allweddol yn cael ei gofnodi ar System Genedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr Carchar (P-Nomis).<br>● Bydd y cyfarfod Lleihau Aildroseddu yn monitro ac yn tracio cynnydd ar gyfer yr holl waith sy'n ymwneud â chynllunio dedfrydau ac ymddygiad troseddol, gan sicrhau bod y carchar yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ganiatáu i bob carcharor symud ymlaen gyda'i ddedfryd. | | Awst 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |
| 8 | **Roedd bylchau yn y trefniadau amddiffyn y cyhoedd.** Ceir oedi cyn cynnal archwiliadau o garcharorion newydd, roedd y trefniadau ar gyfer monitro cysylltiedig â throseddau yn annigonol, ac roedd yr oruchwyliaeth cyn rhyddhau'r carcharorion a oedd yn peri'r risg fwyaf yn annigonol. | Bydd CEF y Parc yn gwella'r trefniadau i amddiffyn y cyhoedd drwy wneud y canlynol:<br><br>● Sefydlu cyfarfod chwarterol o'r Grŵp Llywio Amddiffyn y Cyhoedd i roi cyfeiriad strategol a threfn lywodraethu ar gyfer y trefniadau amddiffyn y cyhoedd.<br>● Adolygu ac ail-lansio'r Cyfarfod Rheoli Risg Rhyngadrannol misol, gan hybu dull gweithredu carchar cyfan i asesu a rheoli risg er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Bydd y Pennaeth Cyflawni Rheoli Troseddwyr yn sicrhau presenoldeb yr aelodaeth graidd (yn unol â'r Fframwaith Polisi Amddiffyn y Cyhoedd), bod cofnodion manwl yn cael eu cadw, a bod pob carcharor uchel ei risg sydd ar fin cael ei ryddhau yn cael ei oruchwylio yn ddigonol, yn amserol ac yn gydweithredol.<br>● Bydd y Pennaeth Cyflawni Rheoli Troseddwyr a'r Pennaeth Diogelwch yn sicrhau bod mwy o gydweithio'n digwydd rhwng y ddwy adran ac yn gwella'r broses o oruchwylio'r trefniadau amddiffyn y cyhoedd, gan sicrhau bod penderfyniadau ac awdurdodiadau yn cael eu seilio ar wybodaeth ddigonol ac yn cael eu cofnodi, i sicrhau bod pob carcharor newydd yn cael ei sgrinio'n briodol a'i adnabod i ystyried a ddylid monitro ei gyfathrebiadau mewn cysylltiad â'i drosedd. | Cyfarwyddwr/ Gwasanaeth Prawf Cymru | Gorffennaf 2025<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y Pennaeth Cyflawni Rheoli Troseddwyr yn defnyddio archwiliadau sicrhau ansawdd drwy gyfrwng yr adnodd sicrwydd amddiffyn y cyhoedd. Bydd yr archwiliadau'n sicrhau y cydymffurfir ag amserlenni'r fframwaith, amseroldeb atgyfeiriadau ac yn cadarnhau ac yn cofnodi lefelau'r Trefniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). | | Awst 2025 |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 9 | **Nid oedd ansawdd y sesiynau gwaith allweddol yn ddigon da, ac roedd dyraniad gweithwyr allweddol yn anghyson.** | Bydd CEF y Parc yn gwella ansawdd y sesiynau gwaith allweddol a'r broses o ddyrannu gweithwyr allweddol drwy wneud y canlynol:<br><br>• Cyflwyno Strategaeth a chynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer Gweithwyr Allweddol, gan gynnwys proses newydd ar gyfer dyrannu gweithwyr allweddol, a fydd yn cynnwys uwchsgilio a datblygu grwpiau staff sy'n ymwneud â Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) a strategaethau Gweithwyr Allweddol.<br>• Diweddaru prosesau sicrhau ansawdd gwaith allweddol i sicrhau eu bod yn cynnwys sut mae gwaith gweithwyr allweddol yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer rheoli troseddwyr. | Cyfarwyddwr | Awst 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |
| 10 | **Nid oedd y bwyd a oedd yn cael ei weini adeg prydau bwyd bob amser yn ddigonol, ac nid oedd siop y carchar yn gwerthu digon o eitemau iach, gan gynnwys ffrwythau a llysiau ffres.** | Bydd CEF y Parc yn gwella'r bwyd a'r eitemau a werthir yn y siop drwy wneud y canlynol:<br><br>• Ar y cyd â'r cyflenwr arlwyo (Aramark), adolygu a diwygio'r systemau presennol, er mwyn gallu cynnig mwy o opsiynau bwyd iach. Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn edrych ar y cyfarpar sydd ar gael, ar reoli dognau ac ar adborth carcharorion ar ansawdd bwyd.<br>• Bydd rheolwyr preswyl yn sicrhau bod yr holl fannau gweini yn cael eu goruchwylio'n ddigonol i sicrhau bod y dognau'n cael eu rheoli a bod y bwyd yn cael ei drin/ei weini'n gywir.<br>• Pwyso a mesur opsiynau fel bod modd defnyddio'r brif gegin a'r storfeydd sydd ar gael i'r eithaf i ddarparu ar gyfer maint y boblogaeth. | Cyfarwyddwr | Gorffennaf 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ● Gwella'r eitemau sydd ar gael yn siop y carchar, gan gynnwys ffrwythau ffres, llysiau ac eitemau diwylliannol.<br>● Cynnal arolygon o'r arlwyo a'r siop bob chwe mis, i sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn diwallu anghenion cyffredinol a diwylliannol y boblogaeth.<br>● Bydd CEF y Parc yn monitro'r bwyd a'r eitemau a ddarperir yn y siop, gan sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn bodloni anghenion y boblogaeth fel a drafodir yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain. | | Mai 2025<br><br>Hydref 2025<br><br>Gorffennaf 2025 |
| 11 | **Nid oedd y broses ymgeisio'n gweithio'n effeithiol, ac nid oedd ffurflenni cwyno ar gael bob amser.** | Bydd CEF y Parc yn gwella'r prosesau cwyno a cheisiadau drwy wneud y canlynol:<br><br>● Adolygu a chynnal y dechnoleg sydd ar gael i'w gwneud yn haws gweld ceisiadau a'u holrhain. Bydd Rheolwyr Preswyl yn cynnal archwiliadau wythnosol o'r dechnoleg i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn.<br>● Bydd data sy'n ymwneud â cheisiadau, gan gynnwys sicrwydd ansawdd, themâu ac amseroldeb, yn cael ei gynnwys mewn adroddiad gwybodaeth reoli a fydd yn cael ei adolygu'n fisol yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain.<br>● Bydd y tîm perfformiad yn cofnodi'r broses ymgeisio yn wythnosol, i edrych ar y nifer a'r mathau o geisiadau sydd wedi cael eu cyflwyno. Yn ogystal, bydd y gwaith o fonitro'r broses yn wythnosol yn edrych ar faint o geisiadau sydd heb eu cwblhau, er mwyn adnabod a rhoi gwybod am feysydd i wella amseroedd ymateb.<br>● Sicrhau bod ffurflenni cwyno, ynghyd â'r amlenni cysylltiedig, ar gael a'u bod yn cael eu hailgyflenwi'n ddyddiol ym mhob uned breswyl. Rhoi system lywodraethu glir ar waith i sicrhau bod y tîm archwilio a sicrhau ansawdd mewnol yn cwblhau cofnod wythnosol o'r cyflenwad sydd ar gael.<br>● Bydd cwynion yn cael eu rhannu drwy adroddiad gwybodaeth reoli i helpu i ganfod mannau lle ceid llawer o broblemau a thargedu atebion, er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael gwrandawiad a bod atebion teg a phriodol ar waith, i ddelio â'r gŵyn dan sylw ac i atal y gŵyn rhag codi eto. Gan ddefnyddio'r cymheiriaid cwynion, bydd CEF y Parc yn cynnwys adolygiad yng nghyfarfodydd cyngor y carchar i gasglu gwybodaeth gan gymheiriaid ynghylch themâu sy'n dod i'r amlwg, gan ddarparu adborth a sicrwydd drwy gyfrwng camau gweithredu a fwriedir i roi sylw i unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg ac a welwyd drwy ddadansoddi cwynion. | Cyfarwyddwr | <br><br>Mehefin 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Mehefin 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12 | **Roedd mynediad i'r llyfrgell yn dal yn rhy gyfyngedig, yn enwedig i'r rheini nad oeddent yn mynychu dosbarthiadau addysg.** | Bydd CEF y Parc a Novus Gower yn sicrhau bod pob carcharor yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r llyfrgell drwy wneud y canlynol:<br><br>• Fel rhan o'r adolygiad diwrnod craidd (Gweler pryder 3 a phryder 6), bydd digon o amser yn cael ei neilltuo i garcharorion, gan gynnwys carcharorion agored i niwed, gael defnyddio'r llyfrgell unwaith yr wythnos o leiaf. Bydd y cyfarfod lle gwneir cynlluniau i reoli'r drefn yn sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu dyrannu i'w gwneud yn haws i'r carcharorion ddefnyddio'r llyfrgell.<br>• Adolygu'r broses ddyrannu ac amserlennu (Gweler pryder 6) fel nad oes rhaid i garcharorion ddewis un gweithgaredd ar draul un arall, gan gynnwys defnyddio'r llyfrgell.<br>• Adolygu'r amserlen addysg er mwyn cynnwys amser fel bod y rhai sy'n mynd i wersi addysg yn yr adeilad mwynderau yn cael mynd i'r llyfrgell.<br>• Bydd presenoldeb yn y llyfrgell yn cael ei fonitro yn y cyfarfod Addysg, Sgiliau a Gwaith wythnosol a chyfarfod y Grŵp Gwella Ansawdd, lle gellir codi camau gweithredu er mwyn adnabod a rhoi sylw i unrhyw bethau sy'n rhwystro carcharorion rhag defnyddio'r llyfrgell. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Hydref 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Mai 2025 |
| 13 | **Roedd rhywfaint o'r addysgu'n wan ac nid oedd yn herio'r holl ddysgwyr nac yn cynllunio ar gyfer eu cynnydd.** | Bydd Novus Gower yn gwella'r broses o sicrhau ansawdd yr addysg drwy wneud y canlynol:<br><br>● Adolygu'r Calendr Ansawdd i gefnogi'r trefniadau ar gyfer gwerthuso'r addysgu mewn ffordd fwy cadarn a chyson, gan ddefnyddio trefniadau arsylwi addysgu a throeon dysgu a fydd yn canfod meysydd i'w gwella a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff, gan gynnwys adborth priodol i wella ansawdd yr addysgu.<br>● Rhoi rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant proffesiynol ar waith ar gyfer yr holl staff addysg. Canolbwyntio ar wella ansawdd a'r ffordd y targedir cwestiynu, ymgorffori tasgau adalw yng ngwaith cynllunio'r athro, gwella dealltwriaeth yr athro o sut i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), y strwythur cynllunio | Cyfarwyddwr Darparwr Addysg | Awst 2025<br><br>Hydref 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gwersi, defnyddio mwy ar offer digidol a hynny mewn ffordd fwy pwrpasol a chynllunio ar gyfer her a chynnydd.<br>● Gwella'r trefniadau monitro ansawdd (arsylwi gwersi, troeon dysgu a gwirio gwaith) a'r trefniadau dysgu ar gyfer yr holl staff, gydag arweinwyr Novus Gower yn sicrhau bod pob athro yn cael adborth datblygiadol o ansawdd uchel ar eu haddysgu, a bod yr adborth hwnnw yn bwydo i mewn i'w cynllun DPP personol bob chwarter i wella ansawdd y ddarpariaeth.<br>● Bydd Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith G4S, y Rheolwr Diwydiannau a Rheolwr Dysgu a Sgiliau Novus Gower yn gwneud archwiliadau Sicrhau Ansawdd misol o'r ddarpariaeth addysg fel rhan o'r calendr ansawdd a'r cylch ansawdd.<br>● Bydd sicrwydd ansawdd a thargedau ar gyfer gwella yn cael eu cofnodi, eu monitro a'u tracio yng nghyfarfod misol y grŵp Gwella Ansawdd a'r Bwrdd Partneriaeth Addysg. | | Mehefin 2025<br><br>Gorffennaf 2025<br><br>Medi 2025 |
| 14 | **Nid oedd prosesau hunanwerthuso'r ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith yn fanwl nac yn gynhwysfawr, gan fethu â blaenoriaethu'r meysydd sydd bwysicaf i sicrhau cynnydd.** | Bydd Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith G4S a Novus Gower yn gwella'r ffordd y caiff addysg, sgiliau a gwaith ei werthuso a'r ffordd y caiff data ei ddadansoddi er mwyn canfod meysydd i'w gwella drwy wneud y canlynol:<br><br>● Cwblhau hunan-werthusiad blynyddol ar y cyd o'r holl ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith.<br>● Bydd Tîm Ansawdd Coleg Gŵyr yn rhoi proses sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod yr hunan-werthuso yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn blaenoriaethu'r maes sydd bwysicaf er mwyn sicrhau cynnydd.<br>● Bydd Rheolwyr Addysg yn gwerthuso'r holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddata CURIOUS, gwybodaeth DPP, adborth athrawon a dysgwyr i nodi meysydd sydd angen eu gwella. Bydd gan y Grŵp Gwella Ansawdd eitem sefydlog ar yr agenda i drafod y cryfderau sy'n dod i'r amlwg a'r meysydd i'w datblygu. Bydd y Tîm Rheoli Contractau a Sicrwydd, Novus, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, yr arweinydd Dysgu a Sgiliau a Choleg Gŵyr Abertawe yn rhoi cymorth ychwanegol ac yn adolygu'r canfyddiadau.<br>● Bydd data'n cael ei ddefnyddio i nodi'r rhannau o drefn y carchar a allai effeithio ar bresenoldeb neu'r ddarpariaeth, gan gynnwys amserlennu, diffyg presenoldeb a | Cyfarwyddwr / Darparwr Addysg | Ebrill 2025<br><br>Mai 2025<br><br>Medi 2025<br><br>Mehefin 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sancsiynau ymddygiad. Bydd y materion a welir yn cael eu codi yn y cyfarfod addysg, sgiliau a gwaith wythnosol er mwyn pwyso a mesur y dewisiadau ar gyfer goresgyn yr hyn sy’n ein rhwystro rhag cyflawni, bydd hyn yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd y Grŵp Sicrwydd Ansawdd a’r Bwrdd Partneriaeth Addysg.<br>● Gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio pob agwedd ar y gwaith a’r hyfforddiant a gynigir, gan ganiatáu i ganlyniadau’r holl ddysgwyr gael eu cynnwys yng ngwerthusiad cyffredinol y darparwyr o’r ddarpariaeth. | | Mehefin 2025 |